

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

GWASANAETH ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

**GWELLA PRESENOLDEB YSGOL YN RHONDDA
CYNON TAF**

**POB PLENTYN, POB DYDD
STRATEGAETH MYNYCHU'R YSGOL
2014 - 2017**

MAI 2014



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

Cynnwys

1. Cyflwyniad	Tud. 3
Pwy sy'n gyfrifol am bresenoldeb ysgol?	Tud. 4
Beth yw swyddogaeth ysgolion?	Tud. 4
Beth yw swyddogaeth y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles?	
Tud. 6	
Beth yw swyddogaeth y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid?	Tud. 7
Beth yw swyddogaeth y Gwasanaeth Addysg ar y Cyd – Consortium Canolbarth y De?	Tud. 8
2. Cyd-destun	Tud. 9
Cyd-destun y polisi	Tud. 9
Cyfraddau presenoldeb yn Rhondda Cynon Taf	Tud.10
3. Cyflwyno'r Strategaeth	Tud. 11
4. Monitro'r Strategaeth	Tud. 15
5. Casgliad	Tud. 17

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r strategaeth yma'n seiliedig ar ethos y Strategaeth Mynychu'r Ysgol 2011-13 wreiddiol, gan ystyried y datblygiadau ers ei lansio. Mae'r ddogfen yma'n nodi'r sefyllfa bresennol o ran lefelau presenoldeb ysgol yn Rhondda Cynon Taf, ynghyd â'r camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd, mewn partneriaeth â chyrff llywodraethu ysgolion, penaethiaid, rhieni, busnesau lleol a grwpiau cymunedol, i wella cyfraddau presenoldeb ysgol dros y tair blynedd nesaf.
- 1.2 Bwriad y strategaeth yma yw adeiladu ar y fframwaith presennol ar gyfer gwelliant parhaus mewn presenoldeb ysgol a chyrhaeddiad, yn yr holl sefydliadau addysgol yn Rhondda Cynon Taf, gan gymryd i ystyriaeth datblygiadau sydd ar y gweill o fewn Consortiwm Canolbarth y De a'i gylch gwaith wrth gefnogi gwelliannau mewn lefelau presenoldeb ar draws y rhanbarth ehangach.
- 1.3 Yn ogystal â hynny, bydd cyflwyno'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid newydd yn ychwanegu at yr amrywiaeth o ymyriadau sydd ar gael i'r disgyblion hynny sy'n profi rhwystrau i'w hawliau o ran addysg a dysgu.
- 1.4 Ar y cyd, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chonsortiwm Canolbarth y De wedi ymroi i weithio gydag ysgolion a phartneriaid ehangach i wella presenoldeb ysgol a phrydlondeb ar draws y pum Awdurdod Lleol. Yn sail i'r ymrwymiad yma mae'r gyd-ddealltwriaeth, oni bai fod plant a phobl ifainc yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon, na fydd modd iddyn nhw gymryd mantais lawn o'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael a fyddan nhw ddim yn cyflawni eu gwir botensial.
- 1.5 Ar sail strategaeth 2011-2013, mae'n hanfodol fod presenoldeb yn yr ysgol yn flaenoriaeth gyffredin gan bartneriaid ehangach os ydyn ni am lwyddo i wneud y newidiadau sylweddol sy'n ofynnol. Felly, ymgysylltu â phartneriaid ychwanegol yw'r weledigaeth ar gyfer y tair blynedd nesaf, a hynny o fewn yr Awdurdod Lleol a thu hwnt, i sicrhau bod y flaenoriaeth yma'n cael ei adlewyrchu yn eu cynlluniau a'u hamcanion eu hunain.
- 1.6 Mae sicrhau lles a diogelwch pob disgybl yn gofyn am i bartneriaethau lleol cydlynol sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer pobl ifainc. Bydd y Consortiwm, yr Awdurdod Lleol, yr ysgolion a phartneriaid, yn canolbwyntio ar ddarparu'r cyfleoedd mwyaf priodol ar gyfer pob person ifanc er mwyn iddo gyflawni'i botensial. Rhaid i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod cyfleoedd o'r fath ar gael i'r holl bobl ifanc drwy'r defnydd effeithiol o wasanaethau, a chynnydd parhaus a chyson mewn lefelau presenoldeb flwyddyn ar ôl blwyddyn.
- 1.7 Bydd ffocws ychwanegol y Consortiwm ar faterion presenoldeb yn sicrhau y bydd dull cydweithredol ar draws pob un o'r pum Awdurdod Lleol, sy'n darparu cyfathrebu cyson a chydlynol i ysgolion, disgyblion a rhieni, ble bynnag yw eu lleoliad daearyddol.

Pwy sy'n gyfrifol am bresenoldeb ysgol?

- 1.8 Mae'r gofynion cyfreithiol ar gyfer presenoldeb ysgol yn cael eu nodi yn Neddf Addysg 1996; Deddf Plant 1989; Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998; a Rheoliadau Cofrestru.
- 1.9 O dan adran 7 o Ddeddf Addysg 1996, mae dyletswydd gyfreithiol ar y **rhieni** i sicrhau bod eu plant yn derbyn addysg llawn amser effeithlon sy'n addas i oedran, gallu a dawn eu plant, naill ai trwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd neu fel arall. Lle mae digon o dystiolaeth nad yw rhieni yn cyflawni'r ddyletswydd gyfreithiol yma, gall camau cyfreithiol gael eu cymryd o dan Adran 444 (1) a/neu (1A) o Ddeddf Addysg 1996.
- 1.10 Mae Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010, yn nodi dyletswydd **ysgolion** i sicrhau bod prosesau ac arferion cofrestru glir ac effeithlon ar waith, a bod yr arferion hynny yn hygyrch i'r Awdurdod Lleol at ddibenion monitro, pan fo angen. Mae cofrestr ysgol yn ddogfen gyfreithiol efallai y bydd angen ei chyflwyno'n dystiolaeth llys mewn erlyniadau Awdurdod Lleol am absenoldeb. **Mae'n drosedd i ysgolion beidio â chadw cofrestr gywir.**
- 1.11 O dan Adran 437 o Ddeddf Addysg 1996, mae'n ddyletswydd ar yr **Awdurdod Lleol** i sicrhau bod plentyn y mae'n gyfrifol amdano dderbyn addysg addas naill ai trwy fynychu'r ysgol, neu fel arall, yn rheolaidd. Mae Adran 436A o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn ei gwneud hi'n ofynnol bod rhaid i Awdurdodau Lleol wneud trefniadau i allu canfod (cyn belled ag y mae'n bosibl gwneud hynny) hunaniaeth y plant sy'n byw yn eu hardaloedd sydd ddim yn derbyn 'addysg addas'.
- 1.12 Dyletswydd yr **Awdurdod Lleol** yw sicrhau bod rhieni ac ysgolion yn cyflawni eu cyfrifoldebau. Mae'r cyfrifoldeb yma'n cael ei roi i'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles.
- 1.13 Er bod y cyfrifoldebau cyfreithiol am sicrhau bod disgyblion cofrestredig yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn gorffwys gydag ysgolion a'r Awdurdod Lleol, mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl ymagwedd Consortiwm gref tuag at ddarparu lefelau gwell a chyson o bresenoldeb mewn ysgolion. Mae'n disgwyl y bydd cyllid ar gael ers Awst 2014 er mwyn rhoi fframwaith cydweithredol cryf ar waith.

Beth yw swyddogaeth ysgolion?

- 1.14 Mae gan ysgolion ddyletswydd statudol o dan Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae gan fframwaith arolygu estyn ddisgwyliadau uchel ynglŷn â chyfrifoldebau ysgolion o ran lles. Mae cyswllt agos ac uniongyrchol rhwng hyn â systemau cofrestru effeithio a dulliau gweithredol o fonitro absenoldeb disgyblion ledled yr ysgol gyfan er mwyn herio a chynorthwyo disgyblion a hybu presenoldeb cyson yn yr ysgol yn ogystal â diwylliant o ddiogelwch ym mhob rhan o'r ysgol.
- 1.15 Yn ogystal â deddfwriaeth genedlaethol bresennol a chanllawiau Estyn, comisiynodd Cyngor Rhondda Cynon Taf adolygiad allanol (Tachwedd 2013) o arferion ysgolion ac archwiliad mewnol (Gorffennaf 2013) o gofrestrau ysgolion. Mae argymhellion o'r gwaith comisiynu yma wedi arwain at nifer o ddisgwyliadau i ysgolion. Mae'r argymhellion yma yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Rhaid i holl ysgolion uwchradd enwebu Uwch Arweinydd ar gyfer Presenoldeb sy'n gyfrifol am reoli strategaethau presenoldeb yn yr ysgol. Dylai'r swydd gynnwys rheoli cydymffurfiaeth ag arferion cofrestru, dadansoddi data presenoldeb ar lefel ysgol gyfan ac ar lefel carfan er mwyn pennu'r meysydd ar gyfer gwella/gweithredu. Hefyd, dylai'r Arweinydd yma fod yn bwynt cyswllt cychwynnol â Chorff Llywodraethu'r ysgol a'r Awdurdod Lleol ar gyfer materion presenoldeb lefel uchel;
 - Gwella ansawdd y prosesau gwneud penderfyniadau strategol o ran gwella presenoldeb, gyda rhagor o arferion hunan-werthuso cadarn a gweithredu dilynol er mwyn rhoi lle amlycach i'r flaenoriaeth;
 - Cryfhau'r cysylltiadau â'r Corff Llywodraethu, gan sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei dosbarthu'n effeithiol a fydd yn arwain at wneud penderfyniadau strategol.
- 1.16 Dylai Cynlluniau Gwella Ysgolion roi lle amlwg i bresenoldeb a'i drin fel blaenoriaeth, sy'n adlewyrchu'r ymrwymiad i leihau lefelau absenoldeb gan ddefnyddio dull gweithredu ysgol gyfan ar draws y strwythur rheoli'r ysgol ehangach. Bydd y Gwasanaeth Gwella Ysgolion, drwy arferion gweithio gwell gyda'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles, yn gallu mynd â heriau mwy goleuedig i'r ysgolion hynny sydd ddim yn rhoi lle amlwg i bresenoldeb fel blaenoriaeth, a monitro cynnydd ysgolion tuag at eu targedau. Bydd bod yn rhan o Gynllun Gwella'r Ysgol yn sicrhau bod presenoldeb yn parhau i fod yn eitem proffil uchel parhaus ar agenda cyfarfod yr Uwch Dîm Arwain.
- 1.17 I gefnogi'r amcanion yng Nghynllun Gwella'r Ysgol, dylai pob ysgol roi polisi presenoldeb ysgol gyfan ar waith, sy'n nodi sut mae presenoldeb yn cael ei reoli a pha systemau monitro sy'n cael eu defnyddio. Dylai pob aelod o staff fynd ati i gefnogi hyn a dylai'r corff llywodraethu ei gymeradwyo a'i fonitro. Dylai'r Polisi Presenoldeb amlinellu cyfrifoldebau aelodau unigol o staff yn glir. Yn ogystal â hynny, dylai fod ar gael yn rhwydd i staff sydd newydd eu penodi, a chael eu ddefnyddio yn rhan o'r broses ymsefydlu.
- 1.18 Dylai fersiwn i blant/pobl ifainc gael ei greu mewn cydweithrediad â'r disgyblion. Byddai hyn yn sicrhau ei fod yn ystyrlon, yn addas at y diben ac yn cael ei ddeall gan yr holl unigolion a'u rhieni/gwarcheidwaid, er mwyn hyrwyddo'r manteision o fynychu'r ysgol yn rheolaidd.
- 1.19 Dylai ysgolion weithredu gweithdrefn Diwrnod Cyntaf o Absenoldeb er mwyn i rieni fod yn effro i'r ffaith nad yw eu plentyn yn yr ysgol. Dylen nhw hefyd fod â system safonol i gadw mewn cysylltiad â rhieni mewn perthynas â materion absenoldeb a phrydlondeb.
- 1.20 Mae monitro rheolaidd o ddata presenoldeb ar draws yr ysgol gyfan, yn y cyfnodau allweddol, y grwpiau blwyddyn a'r dosbarthiadau, yn hanfodol i'r ysgol i ddeall materion presenoldeb. Yr un mor hanfodol yw monitro presenoldeb grwpiau bregus penodol (er enghraifft, plant sy'n derbyn gofal, plant sydd ar y Gofrestr Diogelu Plant, disgyblion sydd wedi'u gwahardd, y rhai hynny sydd ag anghenion addysgol arbennig, troseddwy'r ifainc, cynhalwyr ifainc ac yn y blaen). Dim ond wrth ddadansoddi'r wybodaeth presenoldeb y gall ysgol bennu lle mae angen gwella, a chyfeirio adnoddau yn unol â hynny a hysbysu newidiadau yn y gwasanaeth. Mae ysgolion yn cael eu hannog i ddarparu ymyrraeth briodol ar gyfer pob disgybl ac i beidio â dibynnu ar adnoddau cyfyngedig Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles y Cyngor i ymyrryd unwaith y mae presenoldeb disgybl wedi gostwng islaw'r trothwy o 86%.

1.21 Dylai pob ysgol fod yn gallu darparu data ar y canlynol:

- Lefelau absenoldeb cyffredinol a pharhaus ar gyfer pob disgybl, grŵp blwyddyn a charfan arwyddocaol arall
- Presenoldeb, absenoldeb awdurdodedig ac anawdurdodedig (gan y Cod), gwaharddiadau, diffyg prydlondeb, a chofrestru deuol ar gyfer pob disgybl unigol
- Presenoldeb ar lefel ysgol ac ar lefel carfan, yn ôl y cod

Beth yw swyddogaeth y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles?

1.22 Mae'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yn cynnig cymorth i ysgolion, disgyblion a rhieni er mwyn sicrhau presenoldeb rheolaidd a mynd i'r afael â phroblemau sy'n ymwneud ag absenoldeb. Mae'r Swyddogion Presenoldeb a Lles yn cydweithio ag asiantaethau eraill ac yn gyswllt pwysig rhwng y cartref a'r ysgol. Mae'r Swyddogion yn helpu rhieni ac athrawon i weithio ar y cyd fel bod disgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd addysgol sydd ar gael yn eu hardaloedd lleol.

1.23 Prif swyddogaeth y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yw cyfrannu at yr Awdurdod Lleol ac ymdrechion yr ysgolion i fod yn effeithiol drwy sicrhau bod:

- Presenoldeb yn rhan annatod o systemau a phrosesau'r ysgol
- Mekanweithiau ar waith i fonitro cywirdeb arferion cofrestru ysgolion;
- Ysgolion yn cael eu herio ar y defnydd o'r codau cofrestru, lle bo'n berthnasol;
- Data presenoldeb cywir a chyflawn yn cael eu darparu ar gyfer y Consortiwm erbyn terfynau amser y cytunwyd arnyn nhw
- Targedau heriol ond sydd hefyd yn realistig, yn cael eu gosod ar y cyd ag Arweinwyr Systemau, ysgolion a chyrff llywodraethu
- Pob gweithred mewn partneriaeth ag ysgolion, disgyblion, rhieni a chymunedau, i ddarparu hawliau addysg priodol a phresenoldeb rheolaidd
- Cysylltiadau yn cael eu datblygu â rhwydwaith o asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau addysg, iechyd a chymdeithasol i unigolion gydag anghenion penodol

1.24 Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy:

- hyrwyddo a chefnogi polisïau presenoldeb ysgol gyfan
- darparu cyngor ar arferion da sydd wedi ennill eu plwyf
- cydweithio ag aelodau o staff ysgol, disgyblion, rhieni, ac unrhyw un arall sy'n berthnasol, ar raglenni sy'n ceisio gwella lefelau presenoldeb
- ymgymryd â gwaith gyda disgyblion unigol;
- ymgymryd â gwaith sy'n canolbwyntio ar y teulu
- datblygu gwaith grŵp gyda disgyblion a rhieni
- cychwyn achosion statudol ar ran ar yr Awdurdod Lleol

1.25 Diben Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yw helpu rhieni, ysgolion a'r awdurdod lleol i gyflawni'r dyletswyddau sy'n cael eu gosod arnyn nhw gan ddeddfwriaeth berthnasol.

- 1.26 Mae'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yn asiantaeth orfodi sy'n rhan o'r Awdurdod Lleol, ac sy'n gyfrifol am gymryd camau cyfreithiol, lle bo'n briodol, mewn achosion o absenoldeb parhaus o'r ysgol. Rhieni/Cynhalwyr sydd yn bennaf gyfrifol am sicrhau presenoldeb rheolaidd ac mae camau cyfreithiol i fynd i'r afael â diffyg presenoldeb yn cael eu cymryd ar sail unigol.
- 1.27 Mae'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles hefyd yn gyfrifol am brosesu a monitro'r ceisiadau am drwyddedau i blant ar gyfer cyflogaeth a pherfformio. Y rheswm pam y mae'r cyfrifoldeb yma gyda'r gwasanaeth yw sicrhau na fydd unrhyw geisiadau am absenoldeb yn ystod gyrfa ysgol y plentyn yn cael effaith niweidiol ar ei addysg. Yn ogystal â hynny, mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw waith cyflogedig y mae person ifanc o dan 16 oed yn ei wneud, yn digwydd mewn amgylchedd diogel a phriodol. Bydd asesiadau risg yn cael eu cynnal pan fydd cais yn cael ei dderbyn oddi wrth gyflogwr newydd, cyn i'r drwydded gael ei chymeradwyo.
- 1.28 Ynghyd â'i ddyletswyddau statudol, mae'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles wedi ymestyn ei gylch gwaith dros y ddwy flynedd ddiwethaf er mwyn ymgorffori'r agenda o ran ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Mae'r is-adran yma o'r gwasanaeth yn ychwanegu at y gallu i gefnogi pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio oddi wrth addysg drwy eu helpu i ailintegreiddio â dysgu neu hyfforddiant ar ôl gadael addysg statudol. Rydyn ni'n rhagweld y bydd rôl y garfan yma a'r ffordd y mae'n gweithio yn datblygu ac yn ychwanegu at y cymorth sydd ar gael. Bydd yn gwneud hyn drwy weithio gyda Swyddogion Mynychu'r Ysgol a Lles i lunio'r fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid. I gael rhagor o wybodaeth am hyn, darllenwch Strategaeth Cynorthwyo Ymgysylltu mewn Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant 2013-2016.

Beth yw swyddogaeth y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuencid?

- 1.29 Cafodd y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuencid ei gyflwyno yn Rhondda Cynon Taf er mwyn darparu cymorth arbenigol ac annibynnol ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed. Bydd y ddarpariaeth sydd ar gael gan y gwasanaeth yn sicrhau bod pobl ifanc yn cael manteisio'n llawn ar yr hawliau sydd wedi'u hamlinellu ym mholisi 'Ymestyn Hawliau' Llywodraeth Cymru. Mae'r deg hawl yn cynnwys:
- Addysg/Hyfforddiant - addysg, hyfforddiant a phrofiad gwaith – wedi'i deilwra/ei theilwra i'w hanghenion nhw
 - Sgiliau Sylfaenol - sgiliau sylfaenol sy'n agor y drws i fywyd llawn ac sy'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol
 - Gwirfoddoli - amrywiaeth eang o gyfleoedd i wneud gwaith gwirfoddoli a dinasyddiaeth weithgar
 - Gwasanaethau o Ansawdd Uchel - gwasanaethau a chyfleusterau o ansawdd uchel sy'n ymatebol, yn hwylus ac yn hygyrch
 - Cyngor ar Yrfae - cyngor ac arweiniad annibynnol, arbenigol ar yrfae, cymorth i fyfyrwyr a gwasanaethau cynghori
 - Cymorth Personol - cymorth a chyngor personol – pan fydd eu hangen ac mewn ffurfiau priodol – gyda rheolau cadarn a chlir ar gyfrinachedd
 - Cyngor ar Broblemau - cyngor ar iechyd, budd-daliadau tai a materion eraill, a hynny mewn lleoliadau sy'n hwylus a chroesawgar

- Gweithgareddau Hamdden - cyfleoedd hamdden a chymdeithasol mewn amgylchedd diogel a hygyrch
 - Meithrin Talentau - profiadau sy'n ymwneud â chwaraeon, cerddoriaeth a'r awyr agored er mwyn meithrin talentau, ehangu gorwelion a hybu safbwyntiau cyfannol sy'n cynnwys cyd-destunau cenedlaethol a rhyngwladol
 - Cyfranogi - yr hawl i fod yn rhan o ymgynghori, i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ac i gael eu clywed ar unrhyw fater sy'n bwysig iddyn nhw neu sy'n effeithio ar eu bywydau nhw.
- 1.30 Er mwyn darparu'r gwasanaethau hyn a chefnogi blaenoriaethau'r awdurdod lleol, mae gan swyddogion y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad leuenctid gyfrifoldeb a rennir i hyrwyddo presenoldeb da yn yr ysgol, helpu pobl ifanc i fynd i'r afael â'u rhwystrau i ddysgu ac ailymgysylltu ag addysg pan fydd lefelau absenoldeb yn dechrau codi.
- 1.31 Mewn cydweithrediad â'r Swyddogion Presenoldeb a Lles, bydd y Gwasanaethau Ymgysylltu a Chyfranogiad leuenctid yn darparu cymorth i bobl ifanc ar ddyddiau ysgol, gyda'r nos, ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau. Bydd hyn yn sicrhau bod cymorth ar gael i bobl ifanc yn ystod cyfnodau yn eu bywydau lle byddan nhw'n teimlo'n agored i niwed.

Beth yw swyddogaeth Gwasanaeth Addysg ar y Cyd – Consortiwm Canolbarth y De?

- 1.32 Cafodd Gwasanaeth Addysg ar y Cyd - Consortiwm Canolbarth y De ei sefydlu yn 2012 gyda'r nod o ddatblygu gwaith rhanbarthol er mwyn:
- Darparu gwerth gwell am arian drwy economïau ar raddfa a mesurau effeithlonrwydd. Bydd hyn yn golygu bod mwy o arian yn cael ei roi i ysgolion.
 - Creu rhagor o gyfleoedd i rannu arfer da rhwng awdurdodau lleol ac atal pobl rhag peidio â rhannu gwybodaeth;
 - Galluogi'r arweinwyr gorau ym maes addysg i ddylanwadu ar ysgolion mewn ardal ehangach, a'u helpu;
 - Galluogi ysgolion i helpu ysgolion eraill i wella.
(Ffynhonnell: Partneriaeth ISOS, "School improvement consortia: an early assessment of their readiness to deliver", Tachwedd 2012)
- 1.33 Mae strategaeth gwella ysgolion y Consortiwm, Cyflawni Rhagoriaeth gyda'n Gilydd, yn pennu lefelau cyrhaeddiad uchel ac yn egluro sut y bydd yn gweithio gyda disgyblion, rhieni, ysgolion Awdurdodau Lleol a phartneriaid ehangach er mwyn cyflawni'r gwelliannau sydd eu hangen fel bod pant a phobl ifanc yn llwyddo yn yr ardal.
- 1.34 Cafodd gwella presenoldeb mewn ysgolion ei bennu fel un o feysydd blaenoriaeth y Consortiwm. Er bod hyn yn cael ei reoli o dan 'lles', mae mynd i'r afael ag absenoldebau yn faes gweithredu ynddo'i hun.
- 1.35 Sefydlwyd grŵp rhwydwaith strategol yn 2013 gyda chynrychiolwyr o Wasanaethau Lles Addysg y pum Awdurdod Lleol. Mae cyllid grant gan Lywodraeth Cymru wedi rhoi cyfle i'r Consortiwm gyflwyno dull gweithredu rhanbarthol ar gyfer gwella presenoldeb yn yr ysgol.

- 1.36 Rydyn ni wedi llunio Strategaeth Presenoldeb Ysgol y Consortiwm mewn cydweithrediad â phob partner yn yr Awdurdod Lleol. Mae hwn yn amlinellu ein hymrwymiad i wella presenoldeb yn yr ysgol erbyn 2016, yn unol â Strategaeth ehangach y Consortiwm. Mae'r ddogfen yma'n amlinellu rôl y Gwasanaeth Gwella Ysgolion o ran cynyddu lefelau presenoldeb ysgolion ar y cyd ag ysgolion ac Awdurdodau Lleol.
- 1.37 Mae egwyddorion allweddol strategaeth y Consortiwm yn cydymffurfio â'r manau sydd wedi'u nodi ar gyfer buddsoddiadau yn Rhondda Cynon Taf. Mae hyn yn cydfynd â deilliannau cadarnhaol y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles hyd yma ac mae'n herio'r gwasanaeth a'r partneriaid i barhau i sicrhau canlyniadau dros y blynyddoedd nesaf. O ganlyniad i hynny, bydd yr egwyddorion yma yn parhau i fod yn rhan o strategaeth Rhondda Cynon Taf. Serch hynny, bydd lle i'w haddasu er mwyn diwallu anghenion newidiol y llywodraeth leol a chwsmeriaid.
- 1.38 Er mwyn cyflawni strategaeth y Consortiwm a helpu llwyddiant y cynllun yma, bydd y Consortiwm yn gwneud y canlynol:
- Sicrhau bod presenoldeb yn eitem barhaus ar agendâu cyfarfodydd gwella ysgolion;
 - Monitro dull strategol ysgol gyfan pob ysgol;
 - Defnyddio data ar lefel cod i olrhain cynnydd o ran presenoldeb a herio ysgolion o ran eu lefelau a'u defnydd o'r cod lle y bo hynny'n berthnasol;
 - Archwilio presenoldeb gan ddefnyddio'r pecyn cymorth sydd wedi'i gymeradwyo a sicrhau bod y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yn ymwybodol o'r deilliannau;
 - Meithrin arbenigedd staff yr ysgol er mwyn bodloni gofynion y broses o gynyddu targedau presenoldeb ysgolion;
 - Hwyluso'r broses o rannu arfer da gan ddefnyddio'r Porth i rannu'r wybodaeth.

2. CYD DESTUN

Beth yw cyd-destun y polisi?

- 2.1 Mae Fframwaith Presenoldeb Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru yn darparu safonau ac arweiniad ar gyfer ysgolion a Gwasanaethau Lles Addysg er mwyn sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau sy'n gyson, yn hygyrch ac yn cyrraedd safonau uchel.
- 2.2 Mae'r System Godio Presenoldeb, sy'n cydfynd â'r fframwaith, yn sicrhau bod ysgolion yn cofnodi'r rheswm dros fod yn absennol. Mae hyn yn ein galluogi ni i gynnal dadansoddiadau ar gyfer carfannau amrywiol er mwyn nodi tueddiadau a llywio'r broses o ddatblygu'r gwasanaeth. Er bod y gwaith o gyflwyno'r codau yma wedi bod yn heriol mewn rhai meysydd, mae'r wybodaeth sy'n deillio o ddadansoddi codau yn allweddol er mwyn llywio newidiadau yn y dyfodol ar lefelau gweithredol ar gyfer ysgolion a'r Awdurdod Lleol. Yn ei dro, mae hyn wedi llywio'r strategaeth yma.
- 2.3 Nododd canfyddiadau Arolwg Estyn y Cyngor o Wasanaethau Addysg ar gyfer Plant a Phobl Ifainc ym mis Mawrth 2012 fod gwella presenoldeb mewn ysgolion yn ail argymhelliad allweddol ar gyfer gwella.

- 2.4 Mae Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013 yn atgyfnerthu Adran 444A o Ddeddf Addysg 1996 ac mae'n rhoi hawl i Awdurdodau Lleol gyflwyno hysbysiadau cosb os dyw disgyblion ddim yn mynd i'r ysgol. Mae tystiolaeth yn dangos fod y mesur gorfodi yma yn arf ataliol da i rieni ac mae lefelau presenoldeb wedi gwella ers i'r hysbysiadau gael eu rhoi ar waith. Nod Rhondda Cynon Taf yw cyflwyno Hysbysiad Cosb Penodedig ar gyfer amgylchiadau penodol pan fydd absenoldeb anawdurdodedig o fis Medi 2014 ymlaen. Bydd hyn yn dilyn ymgynghoriad cynhwysfawr â rhanddeiliaid.
- 2.5 Yn dilyn y galw diweddar ar Gonsortia yng Nghymru i fynd i'r afael ag absenoldeb o'r ysgol mewn ffordd fwy gweithredol, mae'n bosibl y bydd datblygiadau o fewn Consortiwm Canolbarth y De yn effeithio ar y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles a'i arferion yn ystod y strategaeth yma. Serch hynny, does dim modd pennu sut fath o effaith yw hwn, na'i lefel, ar hyn o bryd.

Cyfraddau presenoldeb yn Rhondda Cynon Taf

- 2.6 Mae cyfraddau presenoldeb yn Rhondda Cynon Taf yn wael yn gyson. Er gwaethaf y ffaith bod y cyfraddau wedi gwella mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd dros y ddwy flynedd academaidd ddiwethaf, mae angen gwneud mwy o hyd. Mae Tabl 1 isod yn amlinellu'r canrannau presenoldeb ar gyfer disgyblion cynradd ac uwchradd yn Rhondda Cynon Taf dros y tair blynedd ddiwethaf o'u cymharu â'r Cyfartaledd yng Nghymru. Mae hefyd yn cymharu ein cyflawniad â 21 o awdurdodau lleol eraill.

Presenoldeb	2010/11	2011/12	2012/13
Ysgolion Cynradd			
Rhondda Cynon Taf	92.3%	93.1%	93.4%
Cyfartaledd Cymru Gyfan	93.3%	93.8%	93.7%
Safle RhCT allan o 22 Awdurdod Lleol	22	18	16
Uwchradd			
Rhondda Cynon Taf	90.6%	90.6%	91.9%
Cyfartaledd Cymru Gyfan	91.4%	92.2%	92.6%
Safle RhCT allan o 22 Awdurdod Lleol	20	21	21

- 2.7 Mae presenoldeb yn cael effaith sylweddol ar drothwy dangosydd perfformiad Lefel 2 (5 A*-C neu'n gyfystyr), gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg (mesur sy'n barnu sawl plentyn sy'n meddu ar sgiliau allweddol o ran llythrennedd a rhifedd ac ystod eang o wybodaeth). Mae plentyn yn Rhondda Cynon Taf sydd â chyfradd presenoldeb o 94% neu'n fwy:

- **94%** yn fwy tebygol o gyrraedd y trothwy na phlentyn sydd â chyfradd presenoldeb o 90% ar y mwyaf. Mae hyn yn cyfateb â cholli un diwrnod bob pythefnos (o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan, sef 53% yn fwy tebygol o gyrraedd y trothwy);
- **321%** yn fwy tebygol o gyrraedd y trothwy na phlentyn sydd â chyfradd presenoldeb o 80% ar y mwyaf. Mae hyn yn cyfateb â cholli un diwrnod yr wythnos (o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan, sef 207% yn fwy tebygol o gyrraedd y trothwy);

- **1124%** yn fwy tebygol o gyrraedd y trothwy na phlentyn sydd â chyfradd presenoldeb o 70% ar y mwyaf. Mae hyn yn cyfateb â cholli tri diwrnod bob pythefnos (o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan, sef 592% yn fwy tebygol o gyrraedd y trothwy).

- 2.8 Yn debyg i'r sefyllfa ddwy flynedd yn ôl, mae gwaith ymchwil lleol yn parhau i ddangos mai'r broblem fwyaf rydyn ni'n ei hwynebu o ran presenoldeb gwael mewn ysgolion yw'r diwylliant lle mae rhieni yn caniatâu i ddisgyblion fod yn absennol. Mae hyn yn cynnwys tynnu plant allan o'r ysgol er mwyn mynd ar wyliau teuluol yn ystod y tymor ysgol. Mae Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 2010 yn rhoi grym dewisol i ysgolion fel bod modd iddyn nhw awdurdodi absenoldebau ar gyfer mynd ar wyliau gyda'r teulu. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru (2011) wedi pennu cyfyngiad 'derbyniol' o 10 diwrnod o fewn cyfnod o 12 mis.
- 2.9 Ar gyfer disgyblion sy'n colli nifer 'dderbyniol' o ddyddiau ysgol bob blwyddyn, mae eu lefel presenoldeb wedi'i gyfyngu i 94.8%. Dyw hyn ddim yn cyfrif unrhyw absenoldebau oherwydd salwch neu apwyntiadau meddygol yn ystod oriau ysgol. Mae colli 10 diwrnod er mwyn mynd ar wyliau yn ystod y tymor yn gyfystyr â cholli bron 6 mis o ddiwrnodau ysgol yn ystod gyrfa disgybl. Mae'r duedd yma yn un genedlaethol ac mae'n peri problem i bob Awdurdod Lleol sy'n awyddus i wella lefelau presenoldeb ysgolion.
- 2.10 Ar gyfer blwyddyn academaidd 2013/14, cafodd proses o bennu targedau ei rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod pob ysgol yn anelu at darged priodol sy'n seiliedig ar eu hamgylchiadau a'u hanghenion unigol. Roedd gwybodaeth leol, cyflawniad blaenorol, grwpiau meincnodi ac argaeledd o ran cymorth a gwella yn ystyriaethau allweddol wrth bennu pob targed. O ganlyniad i hynny, rodd modd i'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles ganolbwyntio ar y manau lle roedd angen y rhan fwyaf o ymdrech. Cafodd y ffigurau yma eu dilysu gan uwch reolwyr ac ymgynghoron ni ag ysgolion ac arweinwyr systemau er mwyn sicrhau bod y broses yn gyfartal a sicrhau bod cyfleoedd i'w herio. Cafodd y ffigurau swyddogol eu rhannu â phob ysgol yn ystod hanner tymor cyntaf y flwyddyn er mwyn sicrhau'r cyfleoedd gorau o ran llwyddiant.
- 2.11 Mae llawer o enghreifftiau o arfer da yn ein hysgolion. Serch hynny, mae amrywiaeth enfawr yn bodoli o hyd mewn perthynas â'r ffordd mae ysgolion yn rhoi systemau ar waith er mwyn nodi lefelau presenoldeb, mynd i'r afael â nhw a'u monitro ar lefel ysgol unigol ledled Rhondda Cynon Taf. Mae llawer o waith yn mynd rhagddo er mwyn safoni systemau ledled y fwrdeistref sirol. Mae hyn yn cynnwys cyfnodau cofrestru cyffredin, cynllun peilot ar gyfer rhannu gwaith papur a mentrau sydd wedi'u cydlynu'n fewnol megis Carfannau Ymateb i Absenoldebau Dyddiol a chynlluniau gwobrwyo.

3. CYFLWYNO'R STRATEGAETH

- 3.1 Yn dilyn cyflwyno'r Strategaethau Cefnogi Ymgysylltu ag Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant a Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid, mae rhaid i'r Strategaeth Presenoldeb Ysgol yma adlewyrchu'r datblygiadau sydd wedi digwydd o fewn y strategaeth ac ym mhob rhan o'r gyfarwyddiaeth Addysg ehangach. Bydd y ddwy strategaeth newydd yn cael effaith sylweddol ar y ffordd y caiff y gwasanaeth presenoldeb presennol ei ddatblygu yn y dyfodol. O ganlyniad i hynny, rhaid ystyried hyn wrth bennu dulliau gweithredu ar gyfer y strategaeth yma.

- 3.2 Roedd Strategaeth 2011-2013 wedi amlinellu'r meysydd allweddol ar gyfer gwella, sydd, ers cael eu rhoi ar waith, wedi cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb ysgol yn Rhondda Cynon Taf. O ganlyniad i ganolbwyntio ar y tri maes allweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi cynyddu o 1.1% a 1.3% yn ôl eu trefn. Mae gwelliannau mor amlwg yn profi fod yr ymyriadau a gafodd eu cyflwyno wedi bod yn llwyddiannus.
- 3.3 Er bod cyfraddau presenoldeb wedi gwella yn y sectorau cynradd ac uwchradd, mae angen gwneud rhagor o welliannau, a'u cynnal, dros y blynyddoedd nesaf. Mae'n hanfodol fod strategaeth 2011-2013 yn parhau i fod yn sail i Strategaeth Presenoldeb Ysgol 2014-2016 fel bod modd adeiladu ar y seilwaith yma.
- 3.4 Mae'n synhwyrol fod prif nodau strategaeth presenoldeb lleol Rhondda Cynon Taf a strategaeth presenoldeb rhanbarthol Consortiwm Canolbarth y De yn cydfynd â'i gilydd.
- 3.5 O ganlyniad i hynny, pedair nod Strategaeth Presenoldeb Ysgolion Rhondda Cynon Taf yw:
- Gwella ymwybyddiaeth rhieni, disgyblion a'r cyhoedd o'r problemau sy'n gysylltiedig â phresenoldeb wrth feithrin dull gweithredu awdurdod cyfan er mwyn hybu presenoldeb mewn ysgolion a'i wella;
 - Cydlynu dull gweithredu cyson er mwyn ymateb i absenoldeb a darparu gwasanaethau cymorth i atal presenoldeb gwael a helpu disgyblion sydd ddim yn mynd i'r ysgol i ailymgysylltu;
 - Sicrhau bod data presenoldeb yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd fwy effeithiol o nodi a mynd i'r afael â phroblemau a monitro canlyniadau;
 - Parhau i weithredu dyletswyddau statudol Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles o ran presenoldeb mewn ysgolion yn ôl y ddeddfwriaeth.

Gwella ymwybyddiaeth rhieni, disgyblion a'r cyhoedd o'r problemau sy'n gysylltiedig â phresenoldeb drwy feithrin dull gweithredu awdurdod cyfan er mwyn hybu presenoldeb mewn ysgolion a'i wella

- 3.6 Mae codi ymwybyddiaeth o bresenoldeb mewn ysgolion yn faes gweithredu brys yn y broses o wella lefelau presenoldeb. Rhaid i bob rhanddeiliaid allu gweld yr holl weithgarwch mae'r Consortiwm, Awdurdodau Lleol ac ysgolion yn ei gyflawni.
- 3.7 Rhaid llunio neges gyson a chadarn i'r cyhoedd er mwyn rhoi gwybod i bobl fod absenoldeb yn ffactor sylweddol o ran cyflawniad addysgol isel ac yn cael effaith negyddol ar les cymdeithasol ac emosiynol y dysgwyr.
- 3.8 Mae meysydd gweithredu allweddol yn cynnwys:
- Ymgyrchoedd marchnata sydd wedi'u cefnogi gan y Consortiwm;
 - Cymorth gan y cyfryngau i ddathlu hanesion am lwyddiant ac adrodd ar ymyriadau statudol;
 - Cytuno ar arfer da a'i rannu ymhlith ysgolion ac awdurdodau;

- Cydlynu mentrau'r Awdurdod Lleol a'r rheiny sydd ar lefel ysgol;
- Sefydlu cysylltiadau â phartneriaid ehangach yn y gymuned;
- Ystyried dulliau posibl o fesur pa mor effeithiol yw ymyriadau.

Cydlynu dull gweithredu cyson er mwyn ymateb i absenoldeb a darparu gwasanaethau cymorth i atal presenoldeb gwael a helpu disgyblion sydd ddim yn mynd i'r ysgol i ailymgysylltu.

- 3.9 Mae gwaith partneriaeth yn rhan hanfodol o lwyddiant y strategaeth yma ac, o ganlyniad i hynny, mae'n hanfodol fod y Gwasanaeth Gwella Ysgolion yn helpu i ymgysylltu ag ysgolion a'u hannog i ystyried gwella cyfraddau presenoldeb yn ffordd o wella cyflawniad.
- 3.10 Mae'r rhesymau dros ymddieithrio oddi wrth ddysgu yn amrywio. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n hanfodol fod ysgolion a'r Awdurdod Lleol yn adnabod yr arwyddion yn gynnar fel bod modd ymateb yn y modd mwyaf priodol. Fel arfer, mae dull gweithredu aml-asiantaeth yn gweithio orau ar gyfer y rheiny sydd ag anghenion cymhleth neu sydd mewn amgylchiadau personol heriol. Serch hynny, yn gyffredinol, mae achlysuron proffil uchel a gweithgareddau ataliol yn cael mwy o ddylanwad ar ddisgyblion o ran absenoldebau cyson ar lefel isel.
- 3.11 Er bod angen dull gweithredu mewn partneriaeth sy'n glir ac wedi'i gydlynu, mae'n bwysig ein bod ni'n osgoi achosion o ddyblygu drwy sicrhau bod pob rhanddeiliad yn ymwybodol o rolau a chyfrifoldebau'r gwasanaethau unigol. Mae'n hanfodol ein bod ni'n defnyddio dulliau gweithredu gwahanol i fynd i'r afael ag amrywiaeth o bryderon o ran presenoldeb pan fydd dyletswyddau wedi'u haddasu er mwyn symleiddio arferion presennol.
- 3.12 Bydd trefniadau cydweithio gyda'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid yn sicrhau bod pob unigolyn ifanc yn cael ei atgyfeirio at yr ymarferydd mwyaf priodol yn ôl ei anghenion. Bydd hyn yn gwella gallu ysgolion i fynd i'r afael ag absenoldebau drwy ymyrryd yn gynt (gan godi'r trothwy o ran atgyfeirio achosion presenoldeb i'r gwasanaeth).
- 3.13 Mae'n hanfodol ein bod ni'n gwella'r cymorth sydd ar gael i ddisgyblion ar adegau arwyddocaol rhwng cyfnodau allweddol er mwyn sicrhau bod y strategaeth yma'n llwyddiannus yn hirdymor. Mae hyn yn cynnwys y broses o bontio rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn ogystal â'r cyfnod pontio rhwng cyfleoedd hyfforddiant/dysgu ôl-statudol gyda chymorth y Garfan Cefnogi Ymgysylltu ag Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant (SEET).
- 3.14 Bydd y meysydd i'w gwella yn cynnwys:
- Her a chymorth (yn seiliedig ar ddata);
 - Cytundebau Lefel Gwasanaeth;
 - Cytuno ar ddulliau effeithiol o gyfathrebu rhwng pob parti;
 - Adeiladu ar welliannau i'r broses atgyfeirio;
 - Cysylltiadau gwaith ag Arweinwyr Gwasanaethau;
 - Cysylltiadau gwaith ag ysgolion;

- Ymgorffori'r prosesau o ran rhannu gwaith papur;
- Penderfynu beth yw arfer da a'i rannu.

Sicrhau bod data presenoldeb yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd fwy effeithiol er mwyn nodi a mynd i'r afael â phroblemau a monitro canlyniadau

- 3.15 Bydd y broses o wella systemau gwybodaeth rheoli a gweithdrefnau safoni yn ein galluogi ni i gofnodi a dadansoddi data yn brydlon. Yn ei dro, bydd hyn yn galluogi gwasanaethau cymorth presenoldeb ac ysgolion i roi dull gweithredu mwy rhagweithiol ar waith o ran atal a rheoli presenoldeb gwael mewn ysgolion.
- 3.16 Rhaid i Awdurdodau Lleol feddu ar y systemau gwybodaeth priodol er mwyn cofnodi, casglu ac adrodd ar wybodaeth o ran presenoldeb ar lefel yr ysgol a lefel disgyblion. Rhaid gwneud hyn yn brydlon os ydyn nhw am allu ymateb i anghenion unigol yn effeithiol.
- 3.17 Er mwyn gallu cyflwyno heriau a chymorth priodol i ysgolion fel bod modd iddyn nhw wella eu lefelau presenoldeb, rydyn ni wedi sefydlu proses drylwyr o bennu targedau. Mae'r broses yma, sydd wedi'i diwygio, yn ystyried gwybodaeth leol am yr ysgol a'r gymuned. Mae hefyd yn ystyried targedau blaenorol a ffigurau presenoldeb gwirioneddol. Byddwn ni'n adolygu'r broses yma drwy gydol oes y strategaeth er mwyn sicrhau ei bod yn addas at y diben ac yn sicrhau cydbwysedd o ran pennu targedau sy'n heriol ond eto'n gyrraeddadwy.
- 3.18 Mae'r prif feysydd i'w gwella yn cynnwys:
- Systemau data;
 - Dadansoddi data;
 - Llwybrau dosbarthu;
 - Sicrhau ansawdd data a phrosesau;
 - Adrodd ar anghenion;
 - Gweithdrefnau o ran pennu targedau;
 - Gwerthuso a rhannu gwybodaeth am effeithiolrwydd mentrau/arfer da;
 - Dadansoddi data cyflawniad y Gwasanaeth Lles Addysg;
 - Olrhain a monitro'r broses o drosglwyddo disgyblion rhwng ysgolion mewn ffordd fwy cadarn.

Parhau i weithredu dyletswyddau statudol Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles o ran presenoldeb mewn ysgolion yn ôl y ddeddfwriaeth

- 3.19 Ar hyn o bryd, does dim safonau gweithredol cenedlaethol ar gyfer Staff Lles Addysg yng Nghymru. O ganlyniad i hynny, ychydig iawn o gymorth a chydnyddiaeth broffesiynol sydd ar gael i Swyddogion Presenoldeb a Lles Rhondda Cynon Taf y tu allan i'r garfan unigol yma.

- 3.20 Gan fod hwn yn faes gwasanaeth statudol, mae'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles angen cymorth i gyflawni ei ddyletswyddau mewn modd proffesiynol ac effeithiol, yn ogystal â'i annog i ddatblygu a moderneiddio. Mae diogelu ymhlith prif gyfrifoldebau'r gwasanaeth ac, o ganlyniad i hynny, rhaid i staff feddu ar y gallu i reoli achosion yn briodol.
- 3.21 Ynghyd â'r strategaeth yma, ac mewn cydweithrediad â Chonsortiw m Canolbarth y De, y nod yw:
- Cefnogi'r broses o gyflwyno Pecyn Sefydlu Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gwasanaeth Lles Addysg ac, o ganlyniad, dylanwadu ar y rhaglen o safonau gweithredol cenedlaethol ar gyfer staff Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles;
 - Penderfynu ar arfer da a'i rannu o fewn gwasanaethau presenoldeb, o fewn rhanbarth Rhondda Cynon Taf a Chonsortiw m Canolbarth y De;
 - Llunio prosesau effeithiol o fewn y Consortiw m er mwyn ymgysylltu â phartneriaid ehangach yn effeithiol i sicrhau'r effaith gorau;
 - Ystyried y gofynion rhanbarthol o ran arfer diogel ac effeithiol a'r fframwaith galluedd rhanbarthol;
 - Llunio pecyn datblygu proffesiynol parhaus ar gyfer y Consortiw m;
 - Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru er mwyn dylanwadu ar ddatblygiadau o fewn y gwasanaeth yn y dyfodol.

4. MONITRO'R STRATEGAETH

- 4.1 Mae gwella presenoldeb mewn ysgolion yn flaenoriaeth ar gyfer Rhondda Cynon Taf ac, o ganlyniad i hynny, caiff y broses ei monitro a'i harchwilio gan amrywiaeth o bartneriaid mewnol ac allanol.
- 4.2 Mae Pwyllgor Craffu'r Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes yn cael y newyddion diweddaraf am gyflawniadau ac effeithiolrwydd Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yn rheolaidd. Mae'r Pwyllgor yn mynd ati i herio'r gwasanaeth yn ôl yr angen er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gyflawni'r canlyniadau y mae'n anelu at eu gwireddu.
- 4.3 Rydyn ni wedi sefydlu Grŵp Llywio i Benaethiaid Uwchradd, sy'n cynnwys tri phennaeth. Caiff y grŵp yma ei ddefnyddio fel dull cyfathrebu rhwng y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles ac ysgolion. Caiff syniadau'r grŵp gael eu cyflwyno i uwch aelodau o staff y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles a chaiff yr ysgolion roi eu barn ar syniadau a mentrau newydd y Gwasanaeth cyn iddyn nhw gael eu cyflwyno'n swyddogol. Bydd rhannau allweddol o'r strategaeth yn eitemau parhaol ar yr agenda fel bod modd i'r grŵp eu trafod ynghyd ag adborth gan y fforwm penaethiaid, a rhoi adborth i'r fforwm.
- 4.4 Mae Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiw m Canolbarth y De yn gyfrifol am ddarparu'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion ar gyfer y pum Awdurdod Lleol. Mae ganddo rôl debyg yn y broses o sicrhau bod Rhondda Cynon Taf yn cyflawni'r amcanion sydd wedi'u hamlinellu yn y strategaeth yma. Bydd arweinwyr systemau yn herio ffigurau presenoldeb ysgolion a'r prosesau, systemau a'r ymyriadau y maen nhw'n eu defnyddio i

leihau lefel yr absenoldebau. Mae hyn wedi'i amlinellu yn y cyfrifoldebau sydd wedi'u nodi yn y strategaeth yma. Bydd Arweinwyr y System hefyd yn sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion y disgyblion a'u teuluoedd ym mhob un o'r ysgolion maen nhw'n eu cynrychioli.

- 4.5 Yn ogystal â'r Gwasanaeth Gwella Ysgol, mae Penaethiaid Cyflawniad y Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes yn gyfrifol am sicrhau bod nodau ac amcanion Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yn diwallu anghenion y gymuned a'u bod yn sicrhau canlyniadau drwy gydweithio a meysydd gwasanaeth eraill. Yn y gorffennol, rydyn ni wedi canolbwyntio ar ffigurau cyflawniad yr ysgolion. Serch hynny, mae Penaethiaid Cyflawniad yn awyddus i hybu presenoldeb fel sail i welliannau ehangach mewn ysgolion.
- 4.6 Gan fod presenoldeb mewn ysgolion yn flaenoriaeth gyffredin ym mhob rhan o'r Cyngor ac ymhlith partneriaid allanol, bydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn gofyn am y newyddion diweddaraf ynglŷn â chanlyniadau'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles ac effaith y gwasanaeth ar faterion ehangach yn rheolaidd. Byddwn ni'n monitro hyn drwy'r Bwrdd Ffyniant, a bydd ymhlith y tri maes i'w gwella sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Integredig Sengl.
- 4.7 Wrth i'r pwyllgorau, grŵpiau a'r partneriaid uchod herio ac archwilio'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles, bydd y gwasanaeth yn parhau i weithio tuag at sicrhau lefelau presenoldeb gwell a mwy cynaliadwy ym mhob ysgol. Er bod modd defnyddio data presenoldeb sylfaenol i weld pa mor effeithiol yw'r gwasanaeth, bydd angen gweithredu mesurau ychwanegol er mwyn sicrhau bod pob rhanddeiliad yn rhoi dull cyfannol o leihau absenoldebau ar waith. O ganlyniad i hynny, bydd y canlyniadau allweddol canlynol yn dangos pa mor effeithiol yw'r strategaeth:
- Pennu targedau presenoldeb yn ystod hanner tymor cyntaf blwyddyn academaidd newydd a chytuno arnyn nhw ar y cyd â phob ysgol a'r Consortiwm bob blwyddyn;
 - Gwelliannau parhaus ym maes presenoldeb;
 - Llai o absenoldebau oherwydd gwyliau yn ystod y tymor;
 - Nifer llai o ddisgyblion yn absennol am resymau anawdurdodedig;
 - Polisiâu presenoldeb ysgol gyfan ystyrlon ar waith ym mhob ysgol;
 - Gweithdrefnau effeithiol er mwyn rheoli absenoldeb ar waith ym mhob ysgol;
 - Data presenoldeb prydlon a chywir gan bob ysgol;
 - Nodi ac olrhain pob disgybl sydd wedi cael ei dynnu oddi ar gofrestrau ysgolion yn Rhondda Cynon Taf, a hynny heb ysgol newydd hysbys, ar y gronfa ddata genedlaethol ar gyfer disgyblion coll;
- 4.8 Byddwn ni'n gwerthuso effaith y strategaeth yn erbyn canlyniadau allweddol a'r targedau sydd wedi'u pennu yn flynyddol. Mae dangosyddion cyflawniad allweddol Cynllun Gwella Cymru a mesurau'r Cytundeb Canlyniadau sy'n ymwneud â lefelau presenoldeb uwch mewn ysgolion yn golygu bod Rhondda Cynon Taf yn gyfrifol am sicrhau gwelliannau amlwg ledled y sir. Rydyn ni wedi pennu targedau presenoldeb blynyddol ar gyfer yr Awdurdod Lleol yn ogystal ag ysgolion. Byddwn ni'n defnyddio'r rhain i benderfynu a yw'r gyfradd o ran gwella wedi cael ei chynnal. Yn ogystal â hynny, byddwn ni'n defnyddio cyfraddau Cymru gyfan i gymharu effaith y strategaeth yn erbyn Awdurdodau Lleol eraill. Byddwn ni'n cymharu ysgolion yn Rhondda Cynon Taf â'i gilydd er mwyn dangos lefel y gwelliannau sydd wedi'u gwneud.

5. CASGLIAD

- 5.1 Mae'r strategaeth yma'n amlinellu'r ffordd y mae'r Awdurdod Lleol, mewn cydweithrediad â Chonsortium Canolbarth y De, ysgolion a phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn gweithio i wella a chynnal gwelliannau ym maes lefelau presenoldeb mewn ysgolion yn Rhondda Cynon Taf.
- 5.2 Mae'r strategaeth yma yn uchelgeisiol. Ei nod yw parhau â'r gwelliannau a ddechreuodd yn 2011, ond bydd angen gwneud hynny gan ddefnyddio llai o adnoddau ac o dan fwy o bwysau i lwyddo. Rydyn ni wedi llwyddo i gyflawni buddugoliaethau cyflym yn y rhan fwyaf o achosion ac mae angen sicrhau gwelliannau yn y meysydd mwyaf heriol. Bydd angen creadigrwydd ac ymdrech er mwyn gwneud newidiadau cadarnhaol i agwedd rhieni tuag at bresenoldeb mewn ysgolion. Mae hyn yn arbennig o wir os ydyn ni am weld buddiannau hirdymor i ddisgyblion yn Rhondda Cynon Taf a Chonsortium Canolbarth y De.
- 5.3 Yn unol â'n strategaeth ddiwethaf, mae'r arloesedd i'w weld yn y ffordd rydyn ni'n parhau i addasu ein dulliau er mwyn mynd i'r afael â'r problemau mewn ffordd gydlynol ac ystyrlon. Mae cyflwyniad Gwasanaeth Addysg ar y Cyd - Consortium Canolbarth y De yn golygu bod dimensiwn newydd wedi cael ei ychwanegu at yr ymgyrch dros bresenoldeb mewn ysgolion. Mae hyn wedi creu rhagor o gyfleoedd i ddatblygu a llwyddo.
- 5.4 Bydd rhagor o effaith i'w gael os bydd yr egwyddorion yma yn cael eu mabwysiadu a'u rhoi ar waith yn y pum Awdurdod Lleol yn rhanbarth Consortium Canolbarth y De. Bydd mynd i'r afael â'r pedwar maes i'w wella ledled Canolbarth y De yn sicrhau ymateb gweladwy, hirdymor ac effeithiol o ran mynd i'r afael ag absenoldeb mewn ysgolion.